PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

# y tincer

PRIS 75c | Rhif 407 | Mawrth 2018



Celfyddydau'r Borth t.6

Cast Na, Nel! Wwww t.11



Llywernog: 1870 t.12



# Stormydd Geirwon Dydd Gŵyl Ddewi yn dinistrio Llwybr Llên

Mae Llwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn ar gau dros dro am gyfnod amhenodol.

Yn dilyn lligofydd ar ddechrau mis Chwefror eleni fe achoswyd difrod sylweddol gan nerth y dŵr yn llifo i lawr o geunant Llanfihangel Genau'r-glyn gan ddifrodi llawer gan gynnwys Porth yr Eglwys a'r ffordd fawr. Daeth ail bennod i'r stori hon ar ddydd Gŵyl Dewi pan ddaeth eira trwm a gwynt nerthol i'n taro, yn yr union le unwaith yn rhagor, gan adael llanast ar ei ôl. Ymddengys i'r storom ddilyn llwybr o dalcen yr Eglwys i fyny'r cwm cul gan ddymchwel mwy na thrideg o goed i'r llawr a thrwy hynny falurio a dinistrio rhan helaeth o Lwybr Llên Llanfihangel Genau'r-glyn. Cwympodd coed ar draws y llwybr, malwyd nifer o'r paneli ac mae'r bompren a adeiladwyd gan fyfyrwyr Prifysgol Aberystwyth yn yfflon. Mewn sawl lle diflannodd y Llwybr yn llwyr. Cymaint yw'r llanast nes ei bod hi'n debygol nad yw'n ymarferol i glirio'r coed a syrthiwyd ar y safle.

Mae'r Llwybr erbyn hyn wedi ei gau am gyfnod amhenodol tra bod Ymddiredolwyr Treftadaeth Llandre yn asesu'r difrod ac yn ceisio chwilio ffordd ymlaen.



Adeiladwyd y Llwybr gan ymdrechion gwirfoddol ar gost o £10,000. a daeth yn gyrchfan poblogaidd i lawer o bobol leol ac ymwelwyr a thripiau bws yn galw heibio'n gyson i gerdded ac i fwynhau'r cerddi, byd natur a naws arbennig y gornel hyfryd hon o Geredigion. Fe agorwyd y Llwybr gan yr Ardderwydd (ar y pryd) T James Jones *Jim Parc Nest* ym mis Mai 2012 a threfnwyd penwythnos o ddathliadau yn y pentref. Buan iawn y daeth yn atyniad unigryw ac amcangyfrifir bod 12,000 o bobol wedi cerdded y llwybr dros y blynyddoedd

Yn ôl un o ysgogwyr y Llwybr Wynne Melville Jones fe gafodd y Llwybr ei sefydlu fel dathliad o'n traddodiad barddol yn yr ardal sy'n mynd yn ôl i'r ddeuddegfed ganrif, dathliad parhaol a fyddai yma am byth. "Rwyn ffyddiog bod yr ysbryd cymundedol yma yn dal yn ddigon cryf i ni fod yn benderfynol o ddod o hyd i ffordd i ddiogelu dyfodol y Llwybr hwn. Roedd y broses o'i adeiladu yn enghraifft wych o gymuned yn cydweithio er mwyn gwireddu cynllun er lles y fro. "Gyda'n gilydd fe godwn ni eto", medd Wynne.

Lluniau IESTYN HUGHES yw pob un ag eithrio un yr arwydd AR GAU.





# y tincer

**Sefydlwyd Medi 1977**
**Aelod o Fforwm Papurau Bro Ceredigion**

**ISSN 0963-925X**

**GOLYGYDD – Ceris Gruffudd**
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail, Penrhyn-coch
☎ 828017 | YTincer@googlemail.com
**TEIPYDD – Iona Bailey**
**CYSODYDD – Elgan Griffiths** ☎ 627916
**GADEIRYDD A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER – Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno, Goginan ☎ 880228
**IS-GADEIRYDD – Richard Owen,**
31 Glan Ceulan, Penrhyn-coch ☎ 820168
**YSGRIFENNYDD – Anwen Pierce**
3 Bryn Meillion, Bow Street ☎ 828337
**TRYSORYDD – Hedydd Cunningham**
Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk
**HYSBYSEBION – Cysyllter â'r Trysorydd**

**TASG Y TINCER – Anwen Pierce**
**TREFNYDD GWERTHIANT – Lila Piette**
Llys Hedd, Bow Street ☎ 820223

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
**Mrs Beti Daniel**
Glyn Rheidol ☎ 880 691
**Y BORTH – Grace Bailey**, Pencarreg, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871462
**BOW STREET**
**Mrs Mair Lewis**, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
**Lynn Phillips**, 1 Cae'r Odyn ☎ 820 908
**Anwen Pierce**, 3 Bryn Meillion ☎ 828 337
**Maria Owen**, Gerddi Gleision ☎ 822074
**CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN**
**Mrs Aeronwy Lewis**
Rheidol Banc, Blaengeuffordd ☎ 880 645
**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
**Eirian Hughes**, Lluest Fach ☎ 880 335
**Elwyna Davies**, Tyncwm ☎ 880 275
**Dei Evans**, Fferm Fronfraith, Comins-coch ☎ 623 660
**DÔL-Y-BONT**
**Mrs Llinos Evans** – Dôlwerdd ☎ 871 615
**DOLAU**
**Mrs Margaret Rees** – Seintwar ☎ 828 309
**GOGINAN**
**Mrs Bethan Bebb**
Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228
**LLANDRE**
**Mrs Nans Morgan**
Dolgwiail, Llandre ☎ 828 487
**PENRHYN-COCH**
**Mairwen Jones** – 7 Tan-y-berth ☎ 820 642
**TREFEURIG**
**Mrs Edwina Davies**
Darren Villa, Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296


# dyddiadur

**Rhifyn Ebrill** Deunydd i law: Ebrill 6 Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 18

MAWRTH 16 Nos Wener Noson gyda Glan Davies Cymdeithas Lenyddol y Garn ym Methlehem, Llandre am 7.00

MAWRTH 17 Nos Sadwrn Cinio Gŵyl Ddewi Cymdeithas y Penrhyn – yng Ngwesty'r Marine, Aberystwyth – 7.00 ar gyfer 7.30.

MAWRTH 18 Pnawn Sul Gwenno - sioe arbennig brynhawn Sul gan Gwenno Saunders yn Amgueddfa Ceredigion; drysau yn agor am 2.00 Tocynnau: £2

MAWRTH 24 Nos Sadwrn Cofiwch droi y cloc awr ymlaen

MAWRTH 25 Prynhawn Sul Helfa wyau Pasg Cylch Meithrin Pen-llwyn yn Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd o 2.00-4.00

MAWRTH 29 Dydd Iau Ysgolion Ceredigion yn cau dros y Pasg

EBRILL 7 – 8 Dyddiau Sadwrn a Sul Twrnament Pêl-droed Eric & Arthur Thomas ym Mhenrhyn-coch

EBRILL 7 Nos Sadwrn Wil Tân a Clive Edwards yng Ngwesty Llety Parc, Aberystwyth. Tocynnau: £10 Holl elw'r noson tuag at Uned Cemotherapi, Ysbyty Bron-glais.

EBRILL 17 Dydd Mawrth Ysgolion Ceredigion yn ailagor ar ôl y gwyliau

EBRILL 20 Nos Wener Gŵyl Ddrama Gogledd Ceredigion yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch am 7.30. Dramâu byr gan Gwmni Drama Dinas Mawddwy, Licris Olsorts a Doli Micstiyrs. Tocynnau £5 / £2.50 (consesiynau) ar gael gan Ceris Gruffudd Ceris.Gruffudd@gmail.com 01970 828017 Gweler t.8 am fwy o fanylion

EBRILL 27-28 Nos Wener am 4; Sadwrn am 1.00 a 6.00 Eisteddfod Gadeiriol Penrhyn-coch

MAI 2 Dydd Mercher Eisteddfod Calan Mai Aberystwyth ym Morlan, i gychwyn am 4.30 o'r gloch

MAI 10 Nos Iau Darlith gan Mererid Hopwood yn Horeb, Penrhyn-coch am 7.00 Trefnir gan Gymdeithas Cofio a Myfyrio. Mynediad am ddim. Gwneir casgliad tuag at Gymdeithas Waldo a Chymdeithas y Cymod.

**Neuadd Rhydypennau**

EBRILL 3ydd/17eg, Neuadd Rhydypennau Boreau Mawrth Sesiynau agored chwarae badminton i oedolion £2.50 y sesiwn o 10 am – 12 pm.

EBRILL 10fed/24ain Neuadd Rhydypennau Boreau Mawrth Sesiynau agored chwarae tennis bwrdd i oedolion £2.50 y sesiwn o 10am – 12pm.

EBRILL 6/13/20/27 Neuadd Rhydypennau, Nosweithiau Gwener 7pm-9pm. Sesiynau oedolion badminton neu tennis bwrdd. Bwcio fesul awr £2.50 y person. Ffoniwch 01970 828133 i fwcio lle.

EBRILL 8/15/22/29 Neuadd Rhydypennau: Prynhawniau Sul sesiynau badminton, tennis bwrdd, tennis meddal i blant 5-11oed. £1 yr awr £1.50 am ddwy awr. Rhaid i bob plentyn fod o dan ofal oedolyn.


Cyhoeddir y Tincer yn fisol o Fedi i Mehefin gan Bwyllgor y Tincer. Argreffir gan y Lolfa, Tal-y-bont. Nid yw'r Pwyllgor o angenrheidrwydd yn cytuno ag unrhyw farn a fynegir yn y papur hwn. Dylid cyfeirio unrhyw newyddion i'ch gohebydd lleol neu i'r Golygydd, ac unrhyw lythyr neu ddatganiad i'r wasg i'r Golygydd.

Y mae pawb sy'n ymwneud â'r Tincer yn gwneud hynny'n wirfoddol ac yn ddi-dâl er budd y gymuned leol. Nhw fel unigolion sy'n derbyn pob risg a chyfrifoldeb (cyfreithiol ac fel arall) gan dderbyn mai ar y telerau hynny y maent yn cyfrannu at y papur a'i ddosbarthiad.

## CYFEILLION Y TINCER

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion y Tincer mis Chwefror 2018

**£25** (Rhif 218) Kathleen Lewis, Llys Alban, Bow Street
**£15** (Rhif 3) Eurgain Rowlands, Hafod Heli, Y Borth
**£10** (Rhif 296) Shirley Rowlands, 42 Tregerddan, Bow Street

Fe dynnwyd y rhifau buddugol gan aelodau o'r tîm dosbarthu yn festri Bethlehem, Llandre pnawn Mercher Chwefror 14. Diolch i'r aelodau sydd wedi ail ymaelodi ac hefyd croeso i'r aelodau newydd.

**Grŵp Cerdded Rhydypennau**
Prynhawn braf am daith gerdded heibio llynnoedd Syfydrin a Graigypistyll efo Grŵp Cerdded Rhydypennau. Gwelwyd grifft am y tro cyntaf eleni.



## 30 MLYNEDD YN OL



Dyma lun o dîm buddugol pump bob ochr Rhydypennau yng nghystadleuaeth y Mini Minor. Rhes gefn (o'r chwith i'r dde) Gary Jones, Matthew Harrison, Justin Hinge. Rhes flaen: Gareth Roberts, Garmon Rhys, Peter Jones. Llun: Arvid Parry Jones (O'r *Tincer* Mawrth 1988)

**Cylch Cinio**
Daeth nifer dda o aelodau ynghŷd i gyfarfod mis Chwefror o'r Cylch Cinio i gymdeithasu ar noson dywyll oer o aeaf ac i brofi unwaith eto o groeso cynnes a bwyd maethlon Gwesty'r Richmond. Roedd y siaradwr gwadd yn wyneb cyfarwydd ac yn annisgwyl braidd ond wrth gyflwyno yr amryddawn Erwyd Howells, Capel Madog eglurodd y Cadeirydd John Davies bod Erwyd yn garedig iawn wedi llanw bwlch. Ar y funud olaf daeth neges ein gwestai yn methu a dod oherwydd salwch.

Cyflwynwyd Erwyd fel person oedd yn casáu dau beth: dŵr a gwleidyddiaeth, ond yn rhyfedd iawn, roedd agweddau o'r ddau yn nodwedd o gynnwys ei sgwrs. Yn ei gyflwyniad dangosodd Erwyd i ni ddewis helaeth o ddarluniau cofiadwy o Nant-y-moch a hynny cyn i'r cwm gael ei foddi yn 1964. Roedd y ffotograffau yn wir yn drysorau ac yn cynnwys nifer fawr o luniau o John a James James preswylwyr y ffermdy a foddwyd er mwyn codi argae ar gyfer cynllun trydan-ddŵr y Rheidol. Roedd y delweddau yn ddrych o fywyd yn y llecyn diarffordd hwn ac yn rhoi darlun byw o orchwylion fferm fynydd yn ogystal a phwysigrwydd y diwylliant a chrefydd anghydfurfiol y cyfnod i'w bywyd o ddydd i ddydd. Gwelwyd fel yr oedd ffordd o fyw, a fu unwaith yn nodweddiadol o fynyddir Cymru, wedi ei orfodi i ddod i ben yn gynnar. Bu'r symud i lawr gwlad i fyw mewn byngalo yng Nghapel Dewi yn brofiad nad oedd modd i James a John allu dygymod ag e.

Roedd clywed yr hanes o enau bugail olaf llechweddau Pumlumon yn brofiad arbennig. Un darn o wybodaeth oedd yn newydd i lawer ohonom oedd mai nid o enw'r mochyn y daeth Nant-y-moch i fod. Llifeiriant o ddŵr mynydd yw 'moch' ac yn ddios y mae hynny yn nodwedd amlwg ar dirlun yr ardal nodedig hon o ogledd Ceredigion. Wrth ddiolch i Erwyd dywedodd John Williams bod gallu rhyfeddol gan bobl y mynydd i gofio ac er mor anghysbell ac mor unig oedd eu bywydau roeddent yn gwybod llawn cymaint, os nad mwy, na phobol llawr gwlad am newyddion y dydd a hynny mewn cyfnod cyn dyfod y dyfeisiadau cyfathrebu diweddaraf. John Pryse oedd enillydd y raffl.

Braf oedd cael croesawu Eddie Jenkins, Llandre fel aelod newydd a chyflwynodd y Cadeirydd ein cyfarchion i'r Cynghorydd Gareth Davies, Llanbadarn Fawr sydd yn yr ysbyty. Bydd aelodau'r Cylch eleni eto yn cynorthwyo i stiwardio yn y Parêd Gŵyl Ddewi yn Aberystwyth ar Fawrth 3ydd ac mae angen i bawb sy'n gwirfoddoli i roi eu henwau i Dafydd Evans cyn gynted a phosib. Bydd ein cyfarfod nesaf ar nos Wener Mawrth y 9fed ac fel bob amser rydym yn falch o weld aelodau newydd yn ein mysg.



Bugail olaf llechweddau Pumlumon Erwyd Howells (ail o'r chwith) oedd gŵr gwadd Cylch Cinio Aberystwyth yng nghyfarfod mis Chwefror yng ngwesty'r Richmond. Hefyd yn y llun mae Eddie Jenkins, aelod newydd ynghŷd â John Williams a'r Cadeirydd John Davies

**Rhoddion**
Cydnabyddir yn ddiolchgar y rhodd isod. Croesewir pob cyfraniad boed gan unigolyn, gymdeithas neu gyngor.

£100 Cyngor Cymuned y Borth

# CAPEL BANGOR / PEN-LLWYN

**Suliau Pen-llwyn**
*Mawrth*
18 2.00 Beti Griffiths
25 2.00 Terry Edwards

*Ebrill*
1 Sul y Pasg 10.00 Oedfa'r ofalaeth
8 5.00 Bugail Cymun
15 2.00 Bugail
22 2.00 John Tudno Williams
29 5.00 Nicholas Bee

**Ennill llyfr**
Llongyfarchiadau i Thomas Jones o Gapel Bangor am ennill llyfryn Brett John ar raglen radio Tommo canol Chwefror.

**Er cof – Mair Davies**
Bu farw Mrs Mair Davies, yng nghartref Blaenos Llanymddyfri ym mis Ionawr, yn 96 mlwydd oed. Bu yn aelod yng nghapel Pen-llwyn am flynyddoedd ac yn byw y pryd hynny yn Ceunant, Stad Pen-llwyn.

Cafodd ei magwraeth ym mhentref Pump-hewl, Llanelli; hi a'i brawd Arwyn, ond bu farw ei chwaer Lois yn dri mis oed. Mynychodd ysgol y pentref, ac yn weithgar yng nghapel Rehoboth, lle ‹roedd ei thad yn ddiacon. Yn gantores dda, dilynodd lawer o eisteddfodau yr ardal, pan yn ieuanc. 'Roedd ei phriod Aneurin, yn hannu o Bump-hewl hefyd; roedd eu cartrefi ond ryw ddau ganllath o'i gilydd. Gellir dweud felly eu bod yn gariadon bore oes.

Yn ystod yr Ail Ryfel Byd, bu Mair yn gweithio yn Aberdâr, mewn ffatri arfau rhyfel. Ymunodd Aneurin â'r Llu Awyr Brenhinol, fel peilot yn y Dwyrain Pell. Ar ôl chwe mlynedd priododd y ddau yng nghapel Rehoboth ym 1946, a ganwyd iddynt fab Alan y flwyddyn ganlynol.

Ail ymunodd Aneurin â'r swyddfa casglu Trethi yn Llanelli ym 1949, a symudoddy teulu bach i Gaerdydd, ble y buont yn byw tan 1958, ac yna symud i Gapel Bangor, pan gafodd Aneurin ei ddyrchafu yn Bennaeth Casglwr Trethi dros Ganolbarth Cymru. Yna ym 1969, symud eto i Erw Goch, pan y bu Aneurin farw yn sydyn, ar ôl ond pum mlynedd o ymddeoliad.

Byddai Mrs Davies bob amser yn sôn ac yn ymfalchïo yn llwyddiant ei mab Alan, a fu yn astudio yng Nghaerdydd ac Aston, hefyd Birmingham, gan ennill gradd MSc. Gweithiodd i gwmni Courtaulds yn Coventry a Fflint, Gogledd Cymru, a gorffen ei yrfa fel Cyfarwyddwr i Gwmni Rhyngwladol.

Oherwydd cymeriad cryf Mair, parhau a wnaeth, wedi colli Aneurin, i ddilyn nifer o weithgareddau, yn cynnwys ei phresenoldeb rheolaidd yng Nghapel y Morfa. Gwelid hi yn eistedd ar y galeri yn yr un côr bob wythnos.

Yn anffodus gyda'r salwch dementia yn gwaethygu, cafodd le a gofal da yng Nghartref Blaenos, am bron i naw mlynedd.

Estynnwn ein cydymdeimlad i Alan a'i briod Pam, sy'n byw ar hyn o bryd yng Nghaerlyr, i Andrew a Jane, yr wyrion a'i gor wyrion Molly, Harvey, Cara a Freddie. Cofion annwyl amdani.

**Llongyfarchiadau**
Mae'n rhaid y mis hwn i gyfarch dau gwpwl sbesial iawn. Un wedi dathlu eu priodas ddiamwnt mis diwethaf, sef Mr a Mrs Hywel ac Enid Jones, Awel Deg.

Ac hefyd, Mr a Mrs Wynne ac Eleanor Jones, Tan y gaer, yn dathlu eu priodas aur ar Mawrth 30ain. Llongyfarchiadau mawr, a dymuniadau gorau i chwi eich pedwar.

**Yn yr Ysbyty**
Dymunwn yn dda a gwellhad buan iawn i Mr Ieuan Gruffudd, Pennant, a oedd yn Ysbyty Glangwili, wrth i ni fynd i'r wasg.

**Merched y Wawr Melindwr**
Daeth mwyafrif ein haelodau i Llety Parc ar y 6ed o Fawrth i ddathlu Gŵyl Ddewi. Roedd yna gyfle i gymdeithasu cyn cael ein croesawu gan ein Llywydd. Rhoddwyd gras gan Heulwen Lewis cafwyd pryd blasus o fwydydd Cymraeg thraddodiadol.

Gŵr gwadd y noson oedd Dr. Hywel Griffiths, darlithydd adran ddaearyddiaeth Prifysgol Aberystwyth. Arferai fyw yn Nhal-y-bont ond symudodd yn ddiweddar i Lanbadarn Fawr. Roedd fel bachgen ifanc yn hoff o weithio ar fferm y teulu yn Sir Benfro gan hoffi mynd am dro gyda'i dad o amgylch y wlad i ymweld â gwahanol lefydd ac i ddod i adnabod tiroedd Cymru.

Daeth at farddoniaeth trwy cysylltiad â Thalwrn y Beirdd ac fe'i ysbrydolwyd gan ardaloedd, llefydd a phobl y Borth a Thre Taliesin.

Dechreuodd ei araith yn cystadlu yn erbyn sŵn uchel hofrennydd yr Ambiwlans Awyr oedd yn sefyll ar faes Blaendolau. Tybed a fydd hyn yn destun ei englyn nesaf !

Darllenwyd sawl darn o farddoniaeth. Llŷf Coch Awst, neu 3 Llîf Awst yn sôn am ddisgwyliad y ffermwyr am gymaint o law byddai'r pridd yn troi'r afonydd yn goch. Ni fyddai y cynhaeaf cystal heb y digwyddiad yma.Yna tynnwyd sylw at waith Y Parchg Evan Issac a'i gasgliad o farddoniaeth gwerin. Cerdd i ymwneud â Cwm Elan a Chraig Pont Hyllfan yn ymddangos ar ôl cyfnod sych.

Yna at bethau mwy personol - sef magu ei blant ei hun a mynd hefo ei ferch at lan yr afon Rheidol a thaflu cerrig ... yn y glaw ac wrth ei bodd.

Aeth ymlaen i ddiddanu gyda cerddi Dylan adeg canmlwyddiant y bardd , gan ei fod yn gweld ei wyneb ym mhob man! I orffen adroddodd ddwy englyn, sef Cysgod i'w fab Morgan a Dawns i'w ferch Lleucu.

Rhoddwyd diolchiadau iddo gan ein i ben gyda hysbysiadau. Tynwyd sylw i wahoddiad i fynychu cyfarfod Cangen Llanfarian ar yr 21ain Mawrth am 7.30. Noder dyddiad ein cyfarfod nesaf - sef Ebrill 10fed pan fydd Jane Leggett yn ein hyfforddi ni mewn Cymorth Cyntaf yn y cartref.





Cafodd aelodau Cylch Meithrin Pen-llwyn gyfnod prysur yn ddiweddar



Harmoni yn diddanu yn noson grempog Eglwys Dewi Sant, Capel Bangor

## LLANDRE

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â theulu y ddiweddar Olwen Owen, Llys Newydd, Taigwynion fu farw yn dawel yn Ysbyty Bron-glais ar Chwefror 26ain. Priod y diweddar Alwyn a mam Susan a Helen, bu yn cynorthwyo yn Ysgol Feithrin Rhydypennau. Cynhaliwyd yr angladd yn Amlosgfa Aberystwyth dydd Gwener Mawrth 9fed a derbyniwyd rhoddion er cof tuag at Ward Meurig, Ysbyty Bron-glais trwy law Gwyn Evans, Ymgymerwr Angladdau, Brongenau, Llandre.

**Enillwyr Clwb 50 Banc Bro Llanfihangel Genau'r-glyn**
*Ionawr*
1af Dewi Hughes
2il Rhodri a Cêt Morgan
3ydd Sian Elin Jones

*Chwefror*
1af Gwynfryn ac Eryl Evans
2il Marian Beech Hughes
3ydd Wynne Melville Jones

*Mawrth*
1af Jessica Mai Evans
2il Llinos Mair Evans
3ydd Elystan Morgan

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Christine Griffiths, Ffos y Grafel, yn dilyn triniaeth yn yr Ysbyty.

## DOL-Y-BONT

**Gwellhad buan**
Anfonaf ein cofion at Mr. John Hughes, Brynddderwen, sydd yn Ysbyty Bron-glais ar hyn o bryd. Gwellhad buan iddo a nôl i Brynddderwen yn fuan.

## TREFEURIG

**Llwyddiant Eisteddfodol**
Llongyfarchiadau i Gronw a Betsan Downes, Glanrafon, ar eu llwyddiant yn eu heisteddfodau ysgol yn ddiweddar. Llwyddodd Gronw i ddod i'r brig ar yr unawd offerynnol i flwyddyn 7 i 9 yn eisteddfod Ysgol Gyfun Penweddig, a chipiodd dlws coffa Non Taylor i offerynnwr gorau'r eisteddfod.

Enillodd Betsan y tlws i offerynnwr gorau Eisteddfod yr Ysgol Gymraeg am chwarae'r trombôn, a daeth yn ail ar yr unawd piano. Yn y cystadlaethau llenyddol, cipiodd y cwpan am y gerdd Saesneg orau ym mlwyddyn 6, a daeth yn ail am y gadair a'r goron.

## DOLAU

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Elfyn ac Anna, a'r teulu ar farwolaeth mam-gu Anna – Olwen Owen, Llandre.

## Cronfa Eleri 2017

Nifer ceisiadau: 13
Nifer a gefnogwyd: 12
Cais uchaf: £10,092
Cais isaf: £350
Cefnogaeth uchaf: £4,000
Cefnogaeth isaf: £150
Cyfanswm y gronfa: £18,781
Gweithgareddau a gefnogwyd: Henoed Llandre; PATRASA; Cwmni Cletwr; Cae Chwarae Rhydypennau; Neuadd Rhydypennau; Clwb Ysgol Tal-y-bont; Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch; Sioe Aberystwyth; Ysgol Pen-llwyn; Cyngor Cymuned Genau'r-glyn (Tenis); Ysgol Penrhyn-coch; Treftadaeth Llandre.

## Cymanfa Ganu Unedig Gogledd Ceredigion

Rihyrsals am 7.00. Nosweithiau Mercher
**Ebrill**
11 Bethel, Aberystwyth
18 Capel y Garn, Bow Street
25 Seion Aberystwyth

**Mai**
1 Nos Fawrth Bethel Tal-y-bont
9 Morfa |Aberystwyth
13 Dydd Sul Cymanfa Ganu yng Nghapel y Morfa, Aberystwyth am 10.00 a 5.30. Arweinydd: Alwyn Evans. Machynlleth

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor ar nos Iau 22 Chwefror yn Neuadd Rhydypennau o dan lywyddiaeth y Cyng. Rowland Rees. Llongyfarchwyd Hannah Miles ar gael ei dewis i chwarae i dîm pêl droed merched Cymru. Hefyd Harri Horwood ar ei lwyddiant yn nhîm pêl droed dan 18 Cymru, ac am sgorio y gôl fuddugol y diwrnod hwnnw.

Adroddodd y Clerc, y Parchg Richard Lewis, fod caniatâd cynllunio wedi ei roi am estyniad i ystordy yn iard Garn House, ac nid oedd gwrthwynebiad i newidiadau i Dŷ Clwb Maes Carafanau Clarach. Dywedodd hefyd fod atalfa cyflymder 20mya i'w gosod ar ddeupen i Ysgol Rhydypennau, hynny yn fuan.

Eglurodd y clerc hefyd beth oedd mewn dogfen newydd Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol. Os derbynnir yr argymhellion sydd yn yr adroddiad, gall cynghorwyr cymuned hawlio costau o £150 y flwyddyn, ond bydd rhaid cynnwys y cyfanswm (am y cynghorwyr i gyd) yn y gyllideb am y flwyddyn nesaf. Penderfynwyd ei gynnwys yn ein cyllideb, prun a fydd ei angen neu beidio! Ond gall unigol gyfrannu ei "cyflog" at unrhyw elusen megis yr ysgol leol ar ddiwedd y tymor.

Ar nodyn cadarnhaol, mae sietynnau rhwng Bryncastell a Blaenddol wedi eu torri, diolch i'r Cyng. Dewi Evans am arolygu y gwaith. Mae lôn Tynrhos mewn cyflwr enbydus, ac mae galw am driniaeth ar fyrder ar y ffordd yma, hefyd lôn Wileirog. Mae dŵr yn llifo o gaeau Gogerddan yn beryglus os bydd y tywydd yn oeri.

Dywedodd y Cyng. Paul Hinge fod sylw wedi cael ei roi i'r cwteri a fu'n achosi difrod adeg y llifogydd ger pont Rhydypennau, a bod tipyn o lanast yn Dolau wedi i Open Reach fod yn twrio ger mynedfa i adeilad newydd. Cwynodd fod stad y ffordd fawr i Aberystwyth yn wael a bod annibendod ofnadwy o gwmpas y cloddiau. Neb o'r asiantaethau am gymryd y cyfrifoldeb meddai. Rhaid newid lleoliad PACT o Neuadd Rhydypennau i Festri Capel y Garn ar 28 Chwefror. Cadarnhaodd fod treth y cyngor yn codi eleni i £4.95.

Bydd y cyngor yn anfon llythyr o gefnogaeth dros Neuadd Rhydypennau i'r Cyngor Sir am gymorth ariannol at gostau adnewyddu.


Bydd y cyfarfod nesaf ar 29 Mawrth.

Porchell
Eich cigydd lleol
PEN-Y-GARN
FFON 828 447
LLUN: 9-5.30
MAW-SAD 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

D J Evans
Cyfarwyddwyr Angladdau
Busnes teuluol gyda dros 60 mlynedd o brofiad
Kairali, Penrhyn-coch SY23 3EQ
Gwasanaeth personol, urddasol gyda chydymdeimlad
Gwasanaeth Pedair Awr ar Hugain
evansfunerals@talk21.com
Aberystwyth 01970 615328
Penrhyn-coch 01970 820249
Machynlleth 01654 700006

Trefnwyr Angladdau
C T Evans
Gwasanaeth Angladdol Teuluol Cyflawn, wedi ei arwain yn bersonol gydag urddas. Capel Gorffwys Preifat, Gwasanaeth Dydd a Nos.
01970 820013
gwyn@ct-evans.co.uk
Brongenau,
Llandre,
Aberystwyth
SY24 5BS

# Y BORTH





**Celfyddydau'r Borth**

Bydd Ebrill yn fis prysur, ond cyffrous, i Gelfyddydau'r Borth – grŵp o artistiaid sydd yn byw ac yn gweithio yn y Borth ac Ynys-las gydag arddangosfa newydd a'u digwyddiad cymunedol cyntaf.

Yn dilyn arddangosfeydd llwyddiannus yn Oriel Q, Arberth a Chanolgan Celfyddydau Canolbarth Cymru yng Nghaersws, bydd Celfyddydau'r Borth yn arddangos rhan o'u prosiect Y celfyddydau mewn iechyd HAUL yn oriel yr Ystafell Fwyta yn Ysbyty Bron-glais.

Mae HAUL-grŵp o rai proffesiynol ym meysydd iechyd a chelfyddyd yn cynnig gweithgareddau celfyddydol a gwaith celf ledled Ceredigion i grwpiau cymorth iechyd, canolfannau gofal dydd, ysbytai ac unrhyw leoliad gofal iechyd i hyrwyddo iechyd a ffyniant.

Mae sioe newydd Celfyddydau'r Borth 'Y môr, y môr' yn cefnogi menter Blwyddyn y môr Croeso Cymru. Bydd yr arddangosfa yn dangos ymateb yr arlunwyr i'r môr a'u hamgylchfyd, gyda'r canlyniadau mor amrywiol a'r artistiaid eu hunain. Gan ddefnyddio gwahanol dechnegau a chyfryngau mae'r grŵp amrywiol yn cysylltu gydag awyrgylch unigriw y Borth - y traeth, y mynyddoedd, lliw, golau ac, wrth gwrs, yr holl bresennol gyfnewidiol fôr.

Yr artistiaid sy'n arddangos yw Gabrielle Adamson, Mikey Bailey, Bodge, Molly Brown, Stuart Evans, Linda Henry, Peter Jones, Neil Johnson, Sue Lee, Martine Ormerod, Ruth Packham, Marie Pierre, Sarah Pugh ac Eve Smith. Bydd Y môr, y môr yn rhedeg o ddydd Llun 9fed o Ebrill hyd dydd Llun 16fed o Orffennaf.

Bu'n ddymuniad gan Gelfyddydau'r Borth ers dwy flynedd drefnu digwyddiad yn y Borth y gallai unrhyw un o'r pentref gymryd rhan ynddo. Trafodwyd sawl syniad ond, yn y diwedd, penderfynwyd trefnu Gŵyl Fwgan Brain. Gan mai pwrpas yr Ŵyl yw cael y pentref cyfan i gymryd rhan mewn digwyddiad cymunedol, thema yr Ŵyl yw Cymuned. Ar ddechrau'r flwyddyn ymwelwyd â grwpiau, sefydliadau ac unigolion i asesu faint o gefnogaeth sydd ac i drafod y syniad yn llawn. Roedd yr ymateb yn un cadarnhaol.

Mae nifer o bentrefi ym Mhrydain yn cynnal y math yma o weithgaredd yn flynyddol. Mae grwpiau, teuluoedd, unigolion yb yn gwneud ffigur o berson neu anifail a adnabyddir fel bwgan brain, i ddehongli y thema. Mae'r ffigyrau yn cael eu dangos o amgylch y pentref ar amser arbennig gyda map o daith yn cael ei ddarparu yn dangos lleoliadau y bwganod brain.

Cynhelir yr Ŵyl rhwng 20-23 Ebrill gyda'r AS Ben Lake yn dewis enillwyr y gwobrau brynhawn Sadwrn 21 Ebrill. Bydd pawb sydd yn gwneud y daith yn cael cyfle i bleidleisio i Ddewis y Bobl.

Noddir yr Ŵyl Fwgan Brain gan Bwyllgor Carnifal y Borth a'i chefnogi gan Nids a'r Siop Deulu yn y Borth.

Y môr, y môr – Llun 9 Ebrill – Llun 9 Gorffennaf yn Oriel Ystafell Fwyta Ysbyty Bron-glais.

Gŵyl Fwgan Brain Gwener 20 - Llun 23 Ebrill.

**Swydd**

Dymuniadau gorau i Diarmuid Johnston sydd wedi cael swydd ym Mrwsel.

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau, cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
CROESAWIR ARCHEBION GAN UNIGOLION AC YSGOLION
13 Stryd y Bont, Aberystwyth
01970 626 200

# MADOG, DEWI, CEFN-LLWYD

**Suliau Madog**
**2.00**
*Mawrth*
**18** Bugail
**25** Beti Griffiths
*Ebrill*
**1** **10.00** Oedfa'r ofalaeth yn Noddfa
**8**
**15** John Owen
**22** Bugail
**29**

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i Dai Evans, Deilyn, Cefn-llwyd, wedi iddo gael llawdriniaeth yn Ysbyty Bron-glais yn ddiweddar.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Megan Eluned Evans a Siân Mari Evans – dwy chwaer o Gefn-llwyd am wneud yn dda yn eisteddfod yr ysgol. Enillodd Siân ddwy wobr gyntaf am y llawsgrifen gorau ac am adrodd. Ac roedd gan ei chwaer Megan dri cyntaf – am y llawysgrifen gorau, canu'r piano, ac yn adrodd, a hi hefyd enillodd y gadair am ysgrifennu'r stori orau yn Ysgol Penrhyn-coch.



Megan



Siân

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

**Urdd y Benywod**
Cynhaliwyd cinio blynyddol eleni yn Nhafarn y Maes, Capel Bangor. Pleser oedd cael croesawu aelodau hen a newydd. Mwynhauodd pawb bryd o fwyd blasus a chyfle i gymdeithasu cyn mynd adref.

Bore Sadwrn Chwefror 17 daeth nifer o aelodau a'u teuluoedd ynghyd i'r Ganolfan Groeso i fwynhau bore coffi a chlonc. Hyfryd oedd gweld nifer o blant yn ymuno â ni.

Oherwydd y tywydd gorfu i ni ganslo y Cawl Gŵyl Dewi.

**Cydymdeimlo**
Mae Dei a Nancy Evans, Tŷ Poeth, wedi colli dau berthynas eleni; 'roedd Aneurin Morgan, Y Byngalo, yn frawd yng nghyfraith a hefyd Marian Davies , gynt o Coedllys, Llanilar. Estynnwn ein cydymdeilad â chi.

**Digwyddiad**
**Cylch Meithrin Pen-llwyn**
Helfa wyau Pasg, prynhawn Sul Mawrth 25ain o 2-4 o'r gloch yn Ysgol Syr John Rhys, Ponterwyd

# O'r Cynulliad Elin Jones



Dros y misoedd diwethaf, mae nifer fawr o etholwyr wedi cysylltu â mi ynglŷn â'r drafodaeth ar ail-strwythuro gwasanaethau iechyd o fewn Bwrdd Iechyd Hywel Dda sydd wedi ymddangos yn y wasg yn ddiweddar. Mae'r drafodaeth hon yn amlwg yn achos pryder i nifer, gan ein bod ni eisoes wedi ennill sawl dadl dros gadw Ysbyty Bron-glais.

Er hynny, mae angen i ni barhau i ymgyrchu er mwyn galluogi mynediad cyfartal at wasanaethau iechyd ar draws Ceredigion, ac mae'n hollbwysig i godi'r achos unwaith eto, i sicrhau bod Bron-glais yn parhau fel ein prif ysbyty ni, ac i weddill canolbarth Cymru. Mae cadw ein hadran Achosion Brys 24 awr ynghyd â gwasanaethau llawdriniaeth hefyd yn allweddol.

Rwy'n parhau i bwysleisio gyda'r Gweinidog Iechyd a'r Bwrdd Iechyd mai datblygu gwasanaethau yn yr ysbyty sydd angen, nid eu torri. Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadarnhau ei fwriad i gadw gwasanaethau ysbyty yn Bron-glais, felly yn ne ardal Hywel Dda bydd y newidiadau posib.

Dros y misoedd diwethaf, rydw i wedi cynyddu'r pwysau unwaith eto ar Openreach i gwblhau'r gwaith Band Eang sydd heb ei gyflawni wedi i'r cytundeb rhwng y cwmni a Llywodraeth Cymru ddod i ben ddiwedd y llynedd. Mae nifer o achosion wedi dod i'r amlwg lle mae ffibr yn barod ar bolion mewn pentrefi, gyda dim ond cysylltu â thai angen ei wneud.

Rydw i a Ben Lake AS wedi cynnal cymorthfeydd agored ar hyd y sir er mwyn trafod materion hyn gyda chymunedau ac etholwyr. Mae'r rhain wedi cynnwys Ystrad Meurig, Llanrhystud, Llanarth a Llandysul. Yn fuan iawn, fe fydda i'n cwrdd ag Openreach er mwyn trafod yr achosion penodol hyn, ac yn ogystal byddaf yn cwrdd â'r Gweinidog yn Llywodraeth Cymru, Julie James, er mwyn sicrhau blaenoriaeth i Geredigion yn ystod y broses band eang nesaf.

Rydw i hefyd wrthi'n trefnu cyfarfod agored gyda'r Gweinidog yng Ngheredigion dros y misoedd nesaf. Byddaf yn hysbysu'r digwyddiad hwn yn nes at y dyddiad.

Unwaith eto, fe achosodd stormydd Rhagfyr 2017 ddifrod i arfordir Ceredigion. Mae gwella ein hamddiffynfeydd morol, nawr mwy nag erioed, yn fater o bwys i lawer yn ein trefi a'n pentrefi arfordirol ar hyd y sir yn ogystal â'r wlad gyfagos.

Ers y stormydd, rwyf wedi galw ar Lywodraeth Cymru i newid y ffordd yr ariennir gwelliannau i'n hamddiffynfeydd. Yn y gorffennol, fe ddaeth 100% o'r nawdd ar gyfer gwaith cynnal a chadw drwy Lywodraeth Cymru, ond erbyn hyn mae'n rhaid i Gyngor Sir Ceredigion ddod o hyd i 25% o'r nawdd ar gyfer unrhyw waith.

Mae hyn yn achos pryder, oherwydd nid oes cyllidebau cyfalaf am filiynau o bunnoedd ar gael i awdurdod bach fel Ceredigion mwyach, felly mae'r ffaith bod yn rhaid i'r Cyngor Sir ddod o hyd i 25% o'r nawdd cyfalaf yn rhwystr i weithredu yn sydyn a gyda golwg hirdymor. Petai'r llywodraeth yn caniatáu'r newid cyllid hwn, fe fyddai yna effaith sylweddol gyllido ein gwasanaethau lleol, a mwy o sicrwydd i lannau Ceredigion.

# PENRHYN-COCH

**Suliau Horeb**
*Mawrth*
18 2.30 Y Parchg Wyn Morris
25 10.30 Y Parchg John Roberts

*Ebrill*
1 Sul y Pasg Y Parchg Peter Thomas
8 2.30 Y Parchg Wyn Morris ym Methel
15 2.30 Tegwyn Jones, Machynlleth
22 10.00 Oedfa fedydd ym Methel, Aberystwyth
29 2.00 Y Parchg Andrew Lenny ym Methel

**Cadair arall**
Llongyfarchiadau i'r Parchg Judith Morris, Berwynfa, ar ennill cadair eisteddfodol arall – ym Mrynberian, gogledd Sir Benfro nos Sadwrn 17 Chwefror.

**Gwellhad buan**
Dymunwn wellhad buan i'r Parch Lyn Lewis Dafis sydd ar hyn o bryd yn yr ysbyty. Hefyd Carina Stephens, Glanseilo sydd hefyd yn yr ysbyty. Gwellhad buan i Sandra Beechey sydd wedi bod yn yr ysbyty.

**Merched y Wawr Penrhyn-coch**
Ar yr wythfed o Chwefror croesawyd pawb i'r cyfarfod. Roedd y noson yng ngofal Mair Jenkins, Elsie Morgan a Sandra Beechey. Cymerwyd yr awenau gan Elsie ac fe gyflwynodd y gŵr gwadd sef Dai Mason a chafwyd noson ddiddorol yn ei gwmni. Bu yn sôn am ei waith pan yn gweithio yng Ngogerddan a hanes tipyn o'i ardal y mae yn cynrychioli fel cynghorwr. Wedi ei eni a'i fagu yn Nhrefeurig. Does dim amheuaeth, roedd ganddo hanesion diri i'w hadrodd. Diolchodd Elsie iddo ac yna cafwyd cwpanaid a sgwrs a thynnu'r raffl fisol i ddiweddu'r noson.

**Cymdeithas y Penrhyn**
Ein gŵr gwadd nos Fercher, 21 Chwefror oedd Wil Aaron. Roedd testun ei sgwrs yn seiliedig ar ei gyfrol *Poeri i Lygad yr Eliffant – anturiaethau'r saint Cymreig yn y Gorllewin Gwyllt*, a'r ymchwil a wnaeth i daith y Mormoniaid Cymreig i Orllewin yr Unol Daleithiau yn 19 ganrif. Yr 'eliffant' yn y teitl yw ymgnawdoliad o'r peryglon fyddai'r Mormoniaid yn eu cwrdd ar eu ffordd ar draws y cyfandir. Dim ond y dewr fyddai'n edrych i wyneb yr eliffant a dim ond y dewraf o'r dewr feiddiai boeri i'w lygad!

Roedd hwn yn gyfnod cyffrous yn hanes America pan groesodd tua 5 mil o Gymry filoedd o filltiroedd, gyda wagenni, certi ac ychen, y paith i gyrraedd Dinas y Llyn Halen yn Utah, yn y gobaith o gael bywyd gwell.

Llyfr yw hwn am ddynion a merched a edrychodd i wyneb yr eliffant yn ddi-ofn a phoeri i'w lygad.

Cawsom enghreifftiau o amryw o'r Cymry mwyaf lliwgar, ac yn eu plith merch o Landudno o'r enw Martha Hughes Cannon. Roedd hon yn arloesol yn ei dydd – yn feddyg ac yn ymgyrchydd dros hawliau merched. Bu'n flaenllaw yn ei hymgyrch i gael y bleidlais i ferched a chafodd ei hethol i'r Senedd.

Ychydig a wyddom am hanes y Cymry yn Utah, ond yn sicr mae'n stori ddiddorol a gwerth ei hadrodd.



Brownis Penrhyn-coch a Rhydypennau yn mwynhau sesiwn dawnsio gan Lowri a drefnwyd gan Cered sydd yn cydweithio gyda mudiadau ar draws y Sir er mwyn cynnal gweithgareddau Cymraeg.



Llongyfarchiadau i Cari Jenkins ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth i rai oedran 9/10 ym Mhencampwriaethau Twmblan Cymru yn Hwlffordd. Mae'n aelod o Glwb Gymnasteg Aberystwyth.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Ken a Susan Richards a'r teulu, Maes Heulog, ar farwolaeth mam Susan – Olwen Owen, Llandre.

**Pêl-droed Penrhyn-coch**
*Tim 1af Penrhyn-coch*

| | |
|---|---|
| 03 Chwefror | Y Rhyl 2 Penrhyn-coch 2 |
| 17 Chwefror | Penrhyn-coch 0 Tre Dinbych 3 |
| 24 Chwefror | Hotspur Caergybi 2 Penrhyn-coch 3 |
| 7 Mawrth | Penrhyn-coch 2 Caersws 2 Sgoriwyr: Jon Evans 4, Steffan Davies 2 a Sion Meredith 1 |

**Menywod Penrhyn-coch**
18 Chwefror - Cwpan Canolbarth Cymru – Penrhyn-coch 0 Aberystwyth 10
Noddwyd y gêm gan D J Evans, Trefnwr Angladdau, a diolchwn yn fawr iddo am ein noddi gan fod rhaid talu dyfarnwr a llumanwyr.

Fe ddaeth rhai o ferched y timoedd dan 12 i wylio'r gêm a bod yn mascots gan fod hon yn gêm fawr yn erbyn tîm Menywod Aberystwyth sydd mewn cynghrair uwch na menywod Penrhyn-coch. Cafwyd gêm gystadleuol ond roedd safon chwarae Aberystwyth yn amlwg yn uwch. Nhw yw Pencampwyr Cwpan Canolbarth Cymru am y 6 mlynedd diwethaf. Pob lwc iddynt yn y rowndiau nesaf.

24 Chwefror - Cwpan Cynghrair - Penrhyn-coch 6 Llanbedr Pont Steffan 0


**Twrnament Pêl-droed Ieuenctid Penrhyn-coch**
Cynhelir y Twrnament am y 6ed blwyddyn er cof am Eric ac Arthur Thomas, dau o sylfaenwyr Clwb Pêl-droed Penrhyn-coch ar Ddydd Sadwrn a Dydd Sul 7fed ac 8fed o Ebrill 2018 ar gaeau Cae



Cefn: Hanna, Katy, Rachel, Erin, Debbie, Anna, Steph, Manon. Blaen:Rachel, Cat, Lowri, Ceri, Tina, Sara. Y mascots oedd Abigail, Carys, Mari, Emily, Elan

Baker a'r Cae Top i oedrannau o dan 6 oed lan at dan 16 oed. Bydd yn ddiwrnod yn llawn hwyl a brwdfrydedd fel arfer gyda chystadleuaeth iach yn mynd ymlaen rhwng timoedd lleol.

Dydd Sadwrn - dan 6, dan 8, dan 12 a dan 14
Dydd Sul - dan 9, dan 11 a dan 16
Fel arfer - dan 14 a 16 ar y cae top
Noddwyr y Tlysau fydd
Dan 9 - Lloyd Herbert & Jones
Dan 11- Crowley Motorsport
Dan 12 - Alison Jones Schoolwear
Dan 14 - Knockout Furniture
Dan 16 - Garry Davies Accident Repair
Tarian Chwaraewr y Twrnament - Sioned Martin & Catrin Galbraith (merched Eric Thomas)




Llongyfarchiadau i Owen Jac, Aberystwyth - aelod o Glwb Sul Horeb ac ŵyr i Sue a Mervyn Hughes, Ger-y-llan, ar ddod yn gyntaf ar yr unawd Bl 3 a 4 yn yr Eisteddfod Gylch. Pob hwyl yn yr Eisteddfod Ranbarth ym Mhontrhydfendigaid ar Fawrth 24.

Chwaraewr gorau'r twrnament (merched) – Tlws er cof am Gwenno Tudor yn rhoddedig gan Deulu Tudor, Glanystwyth, Llanilar
Mynediad £3. Bydd lluniaeth ar werth yn ystod y dydd

**Clwb Cwtsh**

Mae Clwb Cwtsh yn gwrs blasu Cymraeg sydd wedi'i anelu at ddysgwyr newydd ac sy'n canolbwyntio ar iaith magu plant yn y cartref. Yn ystod y cwrs bydd adloniant ar gael i blant, gan sicrhau nad yw gofal plant yn rhwysgr i bobl ymuno. Bydd y sesiynau yn hwyliog, ysgafn ac yn defnyddio canu a gêmau gydag amser am baned wrth gwrs!

Dyddiau Mawrth 11.00-12.45 yn Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch. Am fwy o fanylion cysyllter â Cadi Lake 07881 344462 cadi.lake@meithrin.cymru

meithrin.cymru/clwbcwtsh

**Ble aeth yr Amser?**

A oes gennych unrhyw syniad beth sydd wedi digwydd i gloc haul yr eglwys? Collwyd o'r fynwent ers dechrau mis Chwefror y flwyddyn hon. Mae'r gwaelod llechen yno, ond mae'r deial o ddefnydd pres/copr wedi diflannu. Os oes gennych unrhyw wybodaeth, a fyddech mor garedig a chysylltu â'r Canon Andrew Loat, neu Wardeniaid yr Eglwys. Gwerthfawrogwn unrhyw help gyda'r mater.



Fel rhan o Wyl Ddrama Gogledd Ceredigion cynhelir noson o ddramâu yn Neuadd y Penrhyn nos Wener 20 Ebrill am 7.30 Pan fydd tri chwmni yn cyflwyno drama fer yr un.

Doli Micstiyrs yn cyflwyno 'Tu Hwnt i bob Gofid' gan Sion Pennant.

Pam bod plant yr ysgol yn poeni Hannah, a phwy yw'r 'cyfaill' dirgel yna sy'n hongian o'i chwmpas? Tybed all Bethan ei helpu?

Drama bwerus sy'n delio â'r thema iechyd meddwl sy'n cael ei chyflwyno gan griw o actorion ifanc dawnus.

Licris Olsorts yn cyflwyno 'A'r Maglau Wedi Torri' gan Emyr Edwards

Mae Gwenda'n poeni, a 'dyw hi ddim yn disgwyl ymweliad – yn enwedig gan Sali. Tybed sut wnaiff hi ddelio gyda'r sefyllfa anghysurus sydd wedi codi mor annisgwyl?

Drama nerthol am berthynas dwy wraig gan feistr y ddeialog, Emyr Edwards.

Cwmni Drama Dinas Mawddwy yn cyflwyno Pwy yw dy Gymydog gan Ifan Gruffydd Comedi hwyliog gan yr actor, comedïwr a'r dramodydd o Dregaron.

Tocynnau £5 oedolyn; £2.50 plant/consesiynau ar gael gan Ceris Gruffudd Ceris.Gruffudd@gmail.com 01970 828017

SIOP
**SGIDIAU GWDIHW**
**Shan Jones**
8 Ffordd Portland,
Aberystwyth
SY23 2NL
**01970 617092**
GWASANAETH
**GOFAL TRAED**
Ceiropodydd /podiatrydd graddedig
ac wedi cofrestru efo'r
H.C.P.C., S.R.Ch., M.Ch.S., B.S.C.Pod, Dip.Pod.Med.

# BOW STREET

**Capel y Garn**
**Gweler hefyd http://www.capelygarn.org/**
**10 a 5**
*Mawrth*
**18** Bugail Cymun
**25** Beti Griffiths Bugail

*Ebrill*
**1** Noddfa
**8** Bugail (bore) Cymun
**15** John Owen
**22** Bugail
**29** Bugail (bore)

**Noddfa**
*Mawrth*
**18** 10.00 Cyfeillach
**25** 2.00 Gweindog
**30** 10.00 Oedfa undebol Gwener y Groglith ym Methel, Tal-y-bont Gweinidog

*Ebrill*
**1** 10.00 Gweinidog (Gofalaeth y Garn yn uno)
**8** 10.00 Gweinidog. Cymundeb
**15** 10.00 Cyfeillach
**22** 10.00 Gweinidog
**29** 10.00 Beti Griffiths

**Pen blwydd hapus**
Pen blwydd hapus yn 80 ar Fawrth 16 i Gareth Lewis, Brynawel. Daw y neges gyda chariad mawr oddi wrth ei wraig Mair a'i blant Lowri a Rhys.

**Cydymdeimlad**
Cydymdeimlwn â Barrie a Helen Jones, y Welsh Black, ar farwolaeth mam Helen - Olwen Owen, Llandre.

**Grŵp Help Llaw**
Pnawn Mercher, 21 Chwefror, daeth Siôn Meredith i gwrdd ag aelodau Grŵp Help Llaw yn festri'r Garn. Fe'i croesawyd gan Mrs Bethan Jones, a chafwyd sgwrs ddiddorol iawn ganddo am y datblygiadau diweddaraf yng ngwaith yr elusen Aberaid, sy'n gweithio i estyn cymorth ymarferol i ffoaduriaid sydd wedi ymsefydlu yn yr ardal. Amlinellodd Sion y gwahanol ffyrdd y mae'r elusen yn



cefnogi'r ffoaduriaid sydd eisoes wedi ymgarthrefu yma, yn ogystal â'r cynllun i ddarparu cartref i deulu arall o ffoaduriaid yn y dyfodol agos. Bydd y Grŵp Help Llaw yn trefnu i gyfrannu tuag at yr ymgyrch, ac os hoffech chi gael rhagor o fanylion, cysylltwch â Bethan Jones neu Shân Hayward.

**Merched y Wawr Rhydypennau**
Croesawyd ni i gyfarfod mis Chwefror gan ein his-lywydd Brenda Jones. Ar ôl trafod busnes y gangen cyflwynodd ein gŵr gwadd, sef yr heddwas Hefin Jones. Gweithio gyda cŵn mae Hefin ac eglurodd sut mae gwahanol gŵn yn gyfrifol am wahanol dasgau fel chwilio am gyffuriau, gynnau, arian, pobl a chyrff. Cafwyd sawl stori ddifyr ganddo am ei brofiadau. I gloi'r noson daeth a'i spaniel, Oscar i'r ystafell; ci hyfryd. Gorffenwyd y noson gyda phaned wedi ei pharatoi gan Carys Davies a Mair Lewis ac enillwyd y raffl gan Mair Davies.






**Dyma deulu talentog Elgar, a fu'n cynnal noson amrywiol o ganu, unawdau offerynnol ac ambell gyflwyniad llafar yng Nghymdeithas y Garn, nos Wener, 16 Chwefror.**



**Cyhoeddi cyfrol**
Ddechrau Mawrth cyhoeddodd Felicity Haf, Bryn Castell – sy'n dylunio dillad i All Saints ac yn cynllunio cardiau Cymraeg a chrochenwaith – gyfrol i blant dan 7 oed – *Begw Haf*.(Y Lolfa). Begw Haf yw'r hynaf o chwech o blant ac er mwyn cael llonydd mae'n hoff o dreulio amser yn nhŷ ei mam-gu. Mae'r ddwy'n pobi cacen arbennig adeg y Nadolig bob blwyddyn. Ond mae Anti Nora'n dwyn y gacen bob tro ac yn gadael sach o datws yn ei lle. Eleni, mae Begw a'i Mam-gu Betsi yn penderfynu chwarae tric ar Anti Nora! Llyfr anrheg deniadol, 24 tudalen, gyda lluniau lliw bendigedig, gwahanol. £5.99

Myfyrdod Gwener y Groglith dan arweiniad y Parch Ddr Watcyn James yn Seion, Capel Seion, bore Gwener, 30 Mawrth, am 10 o'r gloch. Thema: 'I ddweud yn iawn amdano'.



# Cast Na, Nel! Wwww!


Nia Ann, ffotograffiaeth Catrin Arwel


Miriam Isaac (ffotograffiaeth Sioned Nia)


Tomos Wyn (ffotograffiaeth MUG Photography)


Owain Llŷr Edwards a Ffion Bowen gyda'i gilydd ar y cynhyrchiad Diwrnod Hyfryd Sali Mali. Ffotograffiaeth Keith Morris

Mae cast *Na, Nel! Wwww!* cynhyrchiad newydd sbon gan Gwmni Theatr Arad Goch a'r awdur Meleri Wyn James, wedi ei chadarnhau.

Fis Ebrill, bydd ymarferion yn cychwyn ar gyfer cynhyrchiad mawr Arad Goch am 2018, *Na, Nel! Wwww!* Dyma stori newydd sbon wedi ei hysgrifennu gan awdur y gyfres boblogaidd o lyfrau i blant *Na Nel.*

Cymysgedd o wynebau newydd a chyfarwydd Arad Goch sy'n ffurfio'r cast, gyda Nia Ann (*Cerdyn Post o Wlad y Rwla, SXTO*) yn cymryd rôl merch mwyaf direidus Cymru, Nel. Mae Nia wedi perfformio gydag Arad Goch nifer o weithiau yn y gorffennol, gan gynnwys y ddrama drawiadol gan Bethan Gwanas, *SXTO*. Yn diweddar mae Nia wedi bod yn gweithio gyda chwmni Disney fel rhan o'i ddathliadau 25 mlynedd ym Mharis.

"Mae'n bleser cael dychwelyd i weithio gydag Arad Goch eto, ac rwy'n gyffrous iawn i gael chwarae cymeriad mor ddireidus â Nel!" - Nia Ann.

Yn ymuno â Nia fel ffrindiau Nel bydd Tomos Wyn o Lanrwst a Miriam Isaac o Y Bont Faen. Dyma'r tro cyntaf i Tomos a Miriam weithio gyda Chwmni Theatr Arad Goch. Graddiodd Tomos o brifysgol Mountview Academy of Theatre Arts yn 2016, ac ym mis Ionawr, bu'n chwarae rhan Surley ym mhantomeim *Snow White and the Seven Dwarfs* yn New Theatre Caerdydd. Mae Miriam yn gyflwynwraig ar y rhaglen teledu *TAG* ar S4C. Yn ogystal, bu Miriam yn chwarae rhan Jools yn y ddrama deledu S4C *Anita* yn diweddar. Dyma'i swydd perfformio proffesiynol cyntaf hi ym myd theatr wedi nifer o flynyddoedd o waith cyflwyno ac actio ar deledu.

Actorion profiadol Arad Goch, Ffion Wyn Bowen ac Owain Llŷr Edwards sy'n cwblhau'r cast, gyda'r ddau yn chwarae nifer o gymeriadau yr un. Roedd Ffion a Llŷr hefyd yn rhan o gast y sioe *Diwrnod Hyfryd Sali Mali*, a deithiodd o gwmpas Cymru yn 2016. Yn diweddar, bu Llŷr yn cyfarwyddo fersiwn newydd o un o gynyrchiadau clasurol Arad Goch, *Nid Fi*, a deithiodd o gwmpas ysgolion ledled Cymru. Cafodd ei berfformio bron i 100 o weithiau, a chafodd enwebiad ar gyfer y sioe orau i blant a phobl ifanc yng Ngwobrau Theatr Cymru 2018. Mae Ffion newydd gorffen taith o gwmpas ysgolion cynradd de Cymru gyda chynhyrchiad rhyngweithiol diweddaraf Arad Goch, *Cerrig yn Slic*.



Tu ôl i'r llwyfan, bydd y tîm creadigol yn cael ei arwain gan y cyfarwyddwr Jeremy Turner, gyda Carwyn Blayney o Bontsian yn is-gyfarwyddwr. Buddug James Jones yw'r cynllunydd i'r cynhyrchiad, yn ffres ar ôl ennill y wobr 'Best Design' yng Ngwobrau Theatr Cymru 2018 am ei gwaith ar Ŵyl *Hen Linell Bell*.

Bydd *Na, Nel! Wwww!* yn agor yn Theatr Felinfach ar y 15fed o Fai, ac yn ymweld â 16 o theatrau arall ledled Cymru. I weld y daith lawn ar gyfer *Na Nel! Wwww!* ewch i www.aradgoch.cymru. I gael tocynnau, archebwch drwy gysylltu yn uniongyrchol â'r theatr. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Arad Goch ar 01970617998 post@aradgoch.org.

**GWASANAETH CYFIEITHU**
**Linda Griffiths**
Maesmeurig
Pen-bont
Rhydybeddau
Aberystwyth
Ceredigion
SY23 3EZ
**01970 828454**
linda.griffiths01@btinternet.com

# Eisteddfod Calan Mai

Hwre - Rhaglen Eisteddfod Calan Mai, Aberystwyth wedi ei hargraffu ac wedi cael ei dosbarthu i'r siopau, Morlan, llyfrgelloedd, ysgolion, colegau ayyb. Gellir gweld y rhaglen hefyd ar wefan www.steddfota.org.

Ar ddydd Mercher 2 Fai cynhelir yr Eisteddfod eleni yn y Morlan, i gychwyn am 4.30 o'r gloch. Hon fydd chweched pen-blwydd yr eisteddfod newydd anedig, ac i ddathlu hynny mae yna sawl cystadleuaeth newydd o fewn y rhaglen. Eisteddfod leol wrth gwrs yw'r eisteddfod hon, yn gyfyngedig i ddalgylch Ysgol Penweddig. Mae yn yr ardal ddwsinau o gantorion, llefarwyr, beirdd ayyb a gobaith y pwyllgor trefnu yw y byddant yn ymateb i'r sialens eleni eto drwy gymryd rhan yn yr Eisteddfod mewn rhyw fodd neu'i gilydd.

Wrth gwrs mae mwy i eisteddfod na chystadlu ar y llwyfan, beth am geisio yn yr adran gelf neu ffotograffiaeth?

Neu beth am fynd am dani a chodi côr neu barti adrodd, paratoi sgets ayyb er mwyn cael amrywiaeth ar lwyfan 'Steddfod Morlan ar y dydd! Am fanylion llawn, codwch gopi o'r rhaglen yn y siopau lleol neu ewch i wefan www.steddfota.org.

17 Ebrill yw'r dyddiad cau ar gyfer derbyn unrhyw waith cartref - felly digon o amser i'r awen alw heibio i gartrefi gogledd Ceredigion!

Morlan
Canolfan ffydd a diwylliant
Centre for faith and culture

**SGWRS AM OPEN DOORS**
**1.00-2.00, Llun, 26 Mawrth**
Dewch i wrando ar Matthew Rees yn siarad am ei waith gyda'r mudiad Cristnogol Open Doors (www.opendoorsuk.org). Darperir paneidiau – dewch â brechdan!

**DARLITH FLYNYDDOL MORLAN-PANTYFEDWEN**
**7.00, Llun, 23 Ebrill**
Yr Arglwydd Griffiths o Fforest Fach yn anerch ar y thema: *Can a market economy have a moral basis? Thatcher, Zacchaeus and me.*

**morlan.cymru**

# Penwythnos Treftadaeth Cyntaf Silver Mountain Experience (Llywernog: 1870)

**SGANDAL YN Y GWAITH MWYN:** Yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg, roedd yn arfer i reolwyr y gweithfeydd mwyn lleol ysgrifennu adroddiadau ymffrostgar i geisio denu buddsoddwyr a chystadlu gyda'u cymdogion. Mae twyllau mwyngloddio canolbarth Cymru yn ddim ond un o agweddau diddorol yr hanes lleol gwerthfawr hyn.

*1870, Canolbarth Cymru: Coda John Balcombe, rheolwr gwaith mwyn Llywernog, adeiladau trawiadol ar yr wyneb i adlewyrchu 'cyfoeth' y ddaear oddi tano.*

*Mae cynhyrchu mwyn yn wynebu cystadleuaeth o dramor.*

*Mae sgandalau gwthio cyfranddaliadau yn rhemp.*

*'Mae gwaith mwyn arian a phlwm Llywernog wedi ei leoli yng nghanol y maes mwyn cyfoethocaf yn Sir Aberteifi, ac wedi cael ei weithio ers tua'r flwyddyn 1750.*

*Mae'r brif siafft, Hanson's, wedi ei suddo i'r Lefel 72 Ffathom, ac wedi croesdorri pedair gwythïen gyfoethog o fwyn plwm ac arian.*

*Mae yna naw lefel bwysig ar draws uchder o 520 troedfedd, ac mae cannoedd o dunelli o fwyn plwm ac arian wedi cael eu hechdynnu ohonynt.*

*Mi fyddai cyfalaf bychan yn ddigon i roi treial trylwyr i'r mwynglawdd hwn, gyda pheiriannau newydd a chronfeydd enfawr o fwyn i'w darganfod.'*

A fyddech *chi* yn debygol o fuddsoddi yn y gwaith mwyn hwn?

Mae'r Silver Mountain Experience, cartref newydd Gwaith Mwyn Llywernog ger Aberystwyth, yn teithio yn ôl i 1870, ac yn gwahodd a rhoi croeso cynnes i bawb i ymuno â nhw am eu Penwythnos Treftadaeth cyntaf (Llywernog: 1870)! Gyda MYNEDIAD AM DDIM* i'r digwyddiad, mae yna dunelli i'w archwilio a dargafod.

Gyda chymorth aelodau Ymddiriedolaeth Cadwraeth Mwynfeydd Cymru ac Ymddiriedolaeth Mwynfeydd Cambria, mae llwyth o waith helaeth wedi bod yn mynd ymlaen i adfer y peiriannau Jigio Mwyn ac i redeg rhodau/olwynion dŵr y jiger a'r pydle (peiriannau i wahanu'r mwyn o'r graig). Mi fydd dadorchuddiad swyddogol y peiriannau hanesyddol hyn yn ystod y Penwythnos Treftadaeth, pan fydd tipyn o'r peirianwaith yn rhedeg am y tro cyntaf ers diwedd cyfnod y gweithfeydd mwyn!

Mi fydd gweithgareddau hwyl a rhyngweithiol yn mynd ymlaen drwy gydol y penwythnos, yn cloddio'n ddwfn i mewn i hanes anhygoel y diwydiant mwyngloddio yn yr ardal. Mi fydd sioeau rhyngweithiol, arddangosiadau a sgyrsiau yn mynd ymlaen drwy'r digwyddiad. Gallwch hefyd fwynhau un o'n teithiau anturus*, megis chwilota am ein draig swil mewn 'A Dragon's Tale' i ymwelwyr iau, neu i'r rheiny sy'n teimlo'n ddewr, ewch yn ddwfn i hen chwedlau a mythau Cymreig yn ein profiad tanddaearol arswydus 'Black Chasm'.

Mae gwaith mwyn Llywernog yn dyddio o ganol y 1700au, a mwyngloddio am fetelau yng nghanolbarth Cymru hyd at 4,000 o flynyddoedd yn ôl! Mi fydd taith dywysiedig* 'Bywyd y Mwynwr' a'r 'Arddangosiad Mwyngloddio "Shot Fire"' draddodiadol (ar gael yn Gymraeg neu Saesneg), ac arddangosfeydd arbennig dros y Penwythnos Treftadaeth yn eich galluogi i gamu yn ôl mewn amser a dilyn ôl traed y mwynwyr, ac archwilio'r safle unigryw hwn ar yr wyneb ac o dan y ddaear.



Mi fydd stondin Memorabilia Mwyn, ble gall ymwelwyr weld hen arteffactau, dogfennau, llyfrau a ffotograffau yn dyddio o gyfnod y mwynfeydd hyd at 300 mlynedd o oed, yn dod i mewn o drigolion a sefydliadau lleol. Mae tipyn o'r deunydd diddorol hyn yn cynnwys casgliadau o Amgueddfa Ceredigion ac Archifdy Ceredigion.

Caiff ymwelwyr eu hybu i ddod a'u arteffactau eu hunain i mewn sy'n dyddio o gyfnod y gweithfeydd mwyn, ac mi fyddent yn cael y cyfle i gymryd rhan yn ein 'Cystadleuaeth Arteffact Mwyaf Anarferol': mi fydd rhai o'r arteffactau yn cael eu dangos ar dudalen Facebook Silver Mountain Experience yn ystod yr wythnos yn dilyn y digwyddiad, gyda'r ennillydd yn derbyn gwobr o Docyn Blwyddyn i ddau o bobl!

Dewch i mewn ag unrhyw beth yr ydych yn meddwl y gall fod yn ymwneud â chyfnod y gweithfeydd mwyn, ac mi fydd ein arbenigwyr yn gwneud eu gorau i'w hadnabod a dweud mwy amdanynt i chi!



Mi fydd panel ieuenctid Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru yn eich helpu i wneud 'Bathodynnau Map Bychain', neu rowch gynnig ar ein 'Ciplun Hetiau'.

Mi fydd ein Amgueddfa Fwyngloddio, 'Fossil Dig', Panio am Fwynau ac atyniadau eraill i gyd ar agor, ac mi fydd plant yn gallu cymryd rhan mewn gwisgo i fyny hanesyddol yn y Ffau Plant newydd.

Mi fydd yn gyfle gwych i storïau gael eu rhannu a hanes i gael ei ddarganfod; roedd John Balcombe, hen reolwr Llywernog, yn ffigwr o bwysigrwydd mawr yn yr ardal, yn gyfrifol am adeiladau megis y Queen's Hotel yn Aberystwyth, a gafodd ei ddefnyddio fel yr orsaf heddlu yn y gyfres deledu poblogaidd Y Gwyll.

Dilynwch dudalen Silver Mountain ar www.facebook.com/SilverMountainExperience/ wrth i ni nesáu at y digwyddiad cyffrous hyn: mi fydd deunydd unigryw a difyr yn cael ei bostio yno o'r 1af o Fawrth.

Mi fydd y Penwythnos Treftadaeth yn rhedeg o 10yb i 4yp ar ddydd Sadwrn 24ain a dydd Sul 25ain o Fawrth 2018, yn y Silver Mountain Experience – rhwng Nant yr Arian a Phonterwyd ar yr A44, dim ond 15 munud o Aberystwyth a 30 munud o Lanidloes.

Mi fydd hyn yn lansio tymor 2018 y Silver Mountain Experience, a fydd yr un gorau hyd yn hyn gyda hyd yn oed mwy o ddigwyddiadau poblogaidd megis *Ymchwiliadau Paranormal* a *Terror Mountain*, yn ogystal a'r agoriadau dyddiol arferol. Gwelwch eu gwefan www.silvermountainexperience.co.uk am fwy o wybodaeth.

** Codir tâl bychan am y teithiau tywys, sioe 'Time Lab' a'r 'Arddangosiad Mwyngloddio "Shot Fire"'; mi fydd yr holl weithgareddau eraill a'r sgwrs 'Sgandalau Mwyngloddio Canolbarth Cymru' yn rhad ac am ddim.*

# Myfyrdod y Pasg

**Sdim uffern o ots gen i**

Orléan.
Ffrainc.
1939.

Roedd cymylau'r Rhyfel yn crynhoi. Ond beth oedd hynny i dri o laslanciau ifanc yn llawn o egni a hwyl drygiog? A beth oedd hil na chrefydd rhwng ffrindiau? Nid oedd Natsïaeth a chasineb tuag at Iddewon wedi hydreiddio'r ardal nac wedi effeithio ar y tri chyfaill.

Sut oedd treulio amser pan oedd amser yn hir a dychymyg yn fyw?

A dyma'r pwyllgor o dri yn dod i gytundeb am her a hwyl y prynhawn.

Byddai'r tri yn eu tro yn mynd i mewn i'r eglwys a mynd i mewn i'r gyffesgell. Yno yn y tawelwch byddai'r tri yn ceisio cynhyrfu'r offeiriad yr ochr draw i'r llen drwy gyffesu'r anfoesoldeb mwyaf y medrant feddwl amdanynt.

Aeth y ddau ffrind yn eu tro ac yna daeth cyfle Aaron i ddangos ei ddewrder a'i ddychymyg. Yno yn y tawelwch dechreuodd adrodd ei restr o bechodau dychmygol dychrynllyd.

Ni lwyddodd yr un o'r tri i gynhyrfu'r Tad oedd wedi eistedd yn amyneddgar a gwrando arnynt.

Derbyniodd y tri'r un penyd i'w gyflawni.

Yr oeddynt i gerdded i flaen yr eglwys ac edrych ar ddelw o Grist wedi ei groeshoelio oedd gerllaw'r allor. Yna yr oeddynt i benlinio gerbron yr allor. Ac wedi plygu roeddynt i edrych ar y cerflun a dweud : 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosof. A does dim uffern o ots gen i am hynny.'

Felly dyma Aaron yn mynd at yr allor. Aeth yn eitha' hyderus. Wedi'r cyfan doedd y penyd oedd wedi ei osod iddo ddim yn rhy anodd.

Gerbron yr allor, edrychodd i fyny a gwelodd y goron ddrain a'r dwylo briwedig, a'r wyneb dolurus. A dywedodd am y tro cyntaf, 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosof. A does dim uffern o ots gen i am hynny.'

Yna dywedodd yr eilwaith y geiriau a ddysgwyd iddo.

Ond ar y trydydd tro llwyddodd i fynd mor bell a dweud, 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosof. A does dim ..'

Roedd y distawrwydd yn syfrdanol.

Flwyddyn yn ddiweddarach bedyddiwyd Aaron. Dewisodd enw newydd iddo'i hun- Jean-Marie.

Ddegawdau yn ddiweddarach, mewn Homili yn Eglwys Gadeiriol ym Mharis, dywedodd y pregethwr, neb llai na'r Cardinal, yr Archesgob Jean-Marie Lustiger, ei fod yn gwybod bod yr hanes yn wir. Ef ei hun oedd yr Aaron hwnnw.

A ninnau'n troi i ddathlu'r Pasg pan fydd wyau a gwyliau a phrysurdeb yn llenwi'n dyddiau, tybed nad ydym wedi meddwl o ddifri am yr hyn oedd yn sail i'r dathliadau hyn a'i bwysigrwydd yng nghalendrau'n gwlad? Wrth geisio esbonio beth a ddigwyddodd ar Fryn Calfaria y Pasg cyntaf hwnnw esboniodd un o awduron cynharaf y Testament Newydd sut

"Yr oedd Duw yng Nghrist yn cymodi'r byd ag ef ei hun»..

Beth tybed yw arwyddocâd y datganiad hwn i ni?

A tybed faint ohonom, pe baem yn sefyll wyneb yn wyneb â Christ, fel y byddwn oll (yn ôl cred Cristnogion ar hyd y canrifoedd) yn ei wneud rhyw ddydd, fyddai'n medru dweud wrtho, 'Iesu. Dwi'n gwybod dy fod wedi marw drosof. A does dim uffern o ots gen i am hynny.'

**Watcyn James**

**Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch**

CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT

AR AGOR O 5:30 P.M.
NOSWEITHIAU IAU A GWENER
AM BRYDIAU TEULUOL

GWASANAETH GARDDIO
ROBERT GRIFFITHS
Am bob math o waith garddio ffoniwch
(01970) 820924





newyddion etc i / news etc to:
golygydd@trefeurig.org
William Howells, Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch, Aberystwyth SY23 3EQ

**SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH**
Perchennog: Lawrence Kelly
AR AGOR
Llun – Sadwrn
7 y bore – 9 yr hwyr
Sul
7 y bore – 7 yr hwyr
Papurau dyddiol a'r Sul, llyfrgell fideo, cardiau cyfarch
siop drwyddiedig
01970 828312

**MYNACH GARDEN MAINTENANCE**
Torri Porfa, Sietynau, Tirlinio a Garddio
Gwasanaeth cyfeillgar a phrisiau rhesymol
Ffoniwch Meirion:
07792 457816
01974 261758
e-bost: mynachhandyman@yahoo.com

# Gwneler Ei Hewyllys




Beth sydd yn eich hewyllys? Celc i gâr a chyfaill, siŵr o fod, a rhywbeth bach i ambell i elusen, falle.

Pan fu farw'r bardd Ann Rhys Davies, yn 2014, gadawodd y pethe hynny oll ar ei hôl. Ond roedd yna ddwy eitem wahanol yn yr ewyllys hefyd – dwy eitem a fynegai dyfnder ei chariad at ein diwylliant yn ogystal â'n hiaith trwy osod her: yr her o weithredu.

I Theatr Gydweithredol Troedyrhiw y gosodwyd y naill ac, ar sail y rhodd a dderbyniwyd, codwyd gŵyl ddrama newydd yng Ngheredigion, gŵyl fydd yn dathlu ei thrydedd blwyddyn o weithredu ym mis Hydref, eleni.

I nythaid o feirdd Ceredigion y gosodwyd yr ail her. Dros gyfnod o bymtheg gaeaf a rychwantai'r 90au a dechrau'r ganrif newydd cynhaliwyd dosbarth nos yn trafod a chreu cerddi yn festri Brondeifi, Llanbedr Pont Steffan. Un o'r aelodau oedd Ann Rhys a'r her a adawodd drwy waddol ei hewyllys oedd i'r beirdd gyhoeddi detholiad o'r cerddi a ysbrydolwyd gan eu cyd-drafod.

Medd y prifardd Idris Reynolds, arweiniydd y dosbarth: 'I mi bu treulio dwyawr bob nos Fercher yng nghwmni deallus a gwâr yr aelodau yn bleser pur. Mae gennyf atgofion melys am lawer i drafodaeth ddifyr a gafwyd yn eu cwmni.'

Ac yn awr, bedair blynedd wedi marw Ann, mae Idris, â chymorth Roy Davies, gweddw Ann, a chyfeillion eraill wedi cwrdd â'r her o wireddu ei hewyllys. Canys yn Festri Brondeifi, Llambed, nos Iau, 22 Mawrth lawnsir y gyfrol *I Gofio'r Gaeafau* yng nghwmni artistiaid lleol (a llond lle o feirdd, wrth gwrs).

Mae'r gyfrol fach hardd yn sicr o gael croeso mawr – yn enwedig yng nghefn gwlad Ceredigion. Medd Idris Reynolds: 'Mae'n gasgliad cyfoethog am fod yma ganu sy'n llon a lleddf, ysgafn a dwys – cerddi sydd yn eich goglis at chwerthin a'ch hennyn i bwyllo a dwysfyfyrio hefyd. Mewn gair: y bardd gwlad ar ei orau.'

Beirdd y gyfrol yw: **Aeron Davies, Elwyn Davies, Wynne Edwards, Islwyn Ffowc Elis, Arwyn Evans, John Rhys Evans, Aerwen Griffiths, Glyn Ifans, Gareth Lloyd James, Dafydd Lloyd Jones, Gillian Jones, Gwen Jones, Sam Jones, Ken Lewis, Islwyn Morgan, Megan Richards, Ann Rhys, Islwyn Walters** ac **Eirwyn Williams**.

Pris *I Gofio'r Gaeafau* fydd £5.00 a, diolch i ewyllys Ann, cyflwynir pob dime o'r gwerthiant at gronfa Ymchwil y Galon, Ceredigion.

LAWNSIO *I GOFIO'R GAEAFAU* – FESTRI BRONDEIFI, LLAMBED – NOS IAU, 22 Mawrth, 2018 – 7.30 o'r gloch. CROESO CYNNES IAWN I BAWB A PHOB UN.

*Gwybodaeth bellach:*
*Euros Lewis – Theatr Gydweithredol Troedyrhiw*
*07813 173155 01570 47150*

# Cyngor Cymuned Melindwr

Cyfarfu'r Cyngor nos Iau Chwefror 15 yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor gyda'r cadeirydd Andrea Jones yn y gadair. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth y Cynghorydd Sir Rhodri Davies ac Aled Lewis. Cafodd Mrs Sarah Mair Hughes, 9 Stad Penllwyn, Capel Bangor ei chyfethol a chroesawyd hi gan y Cadeirydd.

Roedd dau fater cynllunio wedi dod i sylw y Cyngor Cymuned; sef Dolcniw, Blaengeuffordd a Fron, Capel Bangor; nid oedd unrhyw wrthwynebiad iddynt.

Yn dilyn ceisiadau a ddaeth i law eleni am gymorth ariannol penderfynwyd ar y canlynol: Y Ddolen - £100; Samariaid Aberystwyth - £100; Nyrsys Marie Curie Ceredigion - £100 a Cyngor ar Bopeth Ceredigion - £100.

Mae y gorchuddion bysiau wedi eu glanhau gan gontractwr lleol.

Mynegodd sawl cynghorwr bryder bod dŵr yn gorlifo ar y ffyrdd oherwydd bod gwteri yn llawn. Y broblem i'w hadrodd i'r Cyngor Sir.

Mynychodd sawl cynghorwr y cyfarfod ar Bont Rhiwarthen, bore Gwener Chwefror 16 am 11.00yb. Roedd cynrychiolwyr o Gyngor Sir Ceredigion, y Cynghorydd Sir Rhodri Davies a'r AC Elin Jones yn bresennol.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar nos Iau Mawrth 15 am 7.30yh yn Neuadd Pen-llwyn, Capel Bangor.

# Ysgol Penweddig

**Chwaraeon**

Hoci: Er gwaethaf eu hymdrechion ar ddiwrnod gêmau terfynol Cwpan Hoci Ysgolion Cymru dan 18, colli'r tair gêm i dimau cryf Coleg Gŵyr, Coleg Meirion Dwyfor ac Ysgol Glantaf oedd hanes tîm hŷn Penweddig. Diolch i'r merched am eu hymroddiad dros y blynyddoedd diwethaf.

Rygbi: Er gwaethaf perfformiad da a brwydro caled colli oedd hanes y tîm bechgyn hŷn oddi cartref yn erbyn Ysgol Gyfun Gŵyr yng Nghystadleuaeth Plât Ysgolion Cymru, gyda sgôr o 36-14. Da iawn chi fechgyn.

Sboncen: Yng nghystadleuaeth agored Gogledd Cymru fis Chwefror roedd Sion Evans yn 1af, Rhys Evans yn ail ac Alys Jenkins yn drydydd yn eu categorïau. Llongyfarchiadau i chi gyd.



**Yosano**

Bu sawl disgybl blwydyn 13 ar daith i Yosano yn Siapan yn ddiweddar. Cafwyd nifer o brofiadau gwerthfawr bythgofiadwy, gan gynnwys ymweliad i gofeb Frank Evans o Aberystwyth a fu'n garcharor rhyfel yno yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

**Enillwyr Clwb 100 Cyfeillion Penweddig**

Tachwedd: £20 Hywel Jenkins, Llangwyryfon
£5 Arwyn Thomas, Aberystwyth
Rhagfyr: £20 Victoria Evans, Cnwch-coch
£5 MW Jones, Goginan
Ionawr: £20 H & H Griffith, Llangwyryfon
£5 Delyth Bailey, Penparcau
Chwefror: £20 Angharad Rowlands, Capel Madog
£5 Nia George, Aberystwyth
Mawrth: £20 Richard Morris, Aberystwyth
£5 Delyth James, Penrhyn-coch



**y Lolfa**
Y Lolfa Cyf., Talybont, Ceredigion SY24 5HE

Cyfle i weithio yng ngwasg fywiocaf Cymru!

**Rheolwr/aig Swyddfa**

yn eisiau i groesawu ymwelwyr a gwneud gwaith gweinyddol amrywiol. Dyddiad cau 21 Mawrth. Manylion llawn gan Garmon Gruffudd ar **garmon@ylolfa.com** neu ffoniwch **01970 832 304.**

**www.ylolfa.com**



# Ysgol Pen-llwyn

**Dydd Miwsig Cymru**
Buom yn dathlu'r dydd yma eleni drwy wrando ar gerddoriaeth Gymraeg, mynegi barn, tynnu lluniau rhai o'r testunau a'r cymeriadau a llunio graffiau o'u hoff gerddoriaeth.

**'Biggest Book Show'**
Daeth wyth awdur enwog at ei gilydd i Ganolfan y Celfyddydau i ddarllen pytiau o'u gwaith i'r plant fel rhan o ddathliadau Diwrnod y Llyfr. Daeth y plant yn ôl wedi cael bore wrth eu bodd ac wedi cael blas newydd ar lyfrau.

**Arad Goch**
Bu Mari Turner atom o Gwmni Arad Goch i gynnal sesiynau drama a sesiynau llafar a bu 'r plant yn ymateb yn dda.

**Sioe**
Bu dosbarthiadau 2 a 3 mewn Sioe hwyliog ym Mhenrhyn-coch fu'n olrhain hanes heriau yr iaith Gymraeg ar hyd y canrifoedd. Roedd y Sioe yn cefnogi'r Siarter Iaith a bu'r plant yn ymuno yn frwd ynddi.

**Ysgolion Creadigol**
Cafwyd dyddiau Llun diddorol iawn yn ddiweddar, yn enwedig i blant Dosbarth 2 wrth weithio gyda Mark a Milly. Sbardunwyd y plant drwy wrando ar Chwedl Taliesin yn cael ei hadrodd; bu'r plant yn creu rhannau newydd o'r stori. Rhan arall o'r gwaith oedd ymarfer gyda cyfarpar newydd ar lan afon Melindwr. Y bwriad yw gollwng peli arbennig i'r dŵr a thrwy hynny gallu ffilmio taith darn o'r afon.

Bwriedir cynnal noson agored ar yr 22ain o Fawrth fel bod modd arddangos gwaith y plant gydol y gwersi creadigol hyn ac mae croeso i chi ymuno â ni (manylion i ddilyn ).



**Eisteddfod Gŵyl Dewi**
Cawsom Eisteddfod hwyliog a byrlymus ar ddydd Gwener cyn yr hanner tymor. Roedd rhagbrofion drwy'r bore ac erbyn 1 o'r gloch roedd Neuadd y Penrhyn, Penrhyn-coch yn gyffyrddus o lawn o rieni'r ddwy ysgol yn cefnogi. Braf oedd gweld cystadlu brwd o oedran Meithrin i flwyddyn 6. Cafodd y Gwaith cartref buddugol ei arddangos yn y Neuadd a chafwyd seremoni cadeirio urddasol i'r ddau ddarpar lenor. Llongyfarchidau mawr iddynt ac i bawb a gymerodd ran ar, ac oddi ar y llwyfan. Pleser yw gweld fod ein diwylliant Cymraeg yn dal yn fyw ym Mhen-llwyn ac ym Mhenrhyn-coch . Daliwch ati!












Crefftau Pennau
Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau Ac Anrhegion
Ar gau ar ddydd Llun
Brecwast ar gael
01970 820 050
Pennau

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch, slag a Fibrophos
Lori, turiwr a malwr i'w llogi
Cyflenwi cerrig mán
01970 820149
07980 687475

TACSI EDDIE
Perchennog:
Connie Evans,
Gwawrfryn,
Penrhyn-coch
01970 828 642
07790 961 226

# Ysgol Rhydypennau

**Arolygiad ESTYN**

Mae'r ysgol yn dathlu cyhoeddiad adroddiad arolygiad diweddar gan Estyn. Ysgol Rhydypennau oedd yr ysgol gyntaf yng Ngheredigion i dderbyn arolygiad llawn dan y drefn arolygu ddiwygiedig. Pleser yw cyhoeddi bod yr arolygwyr wedi adnabod nifer fawr o gryfderau ac elfennau rhagorol yn y ddarpariaeth, gan farnu'r ysgol yn dda ym mhob agwedd. Nodwyd yn yr adroddiad bod yr ysgol yn darparu amrediad eang a chyfoethog o brofiadau dysgu i ddatblygu medrau'r disgyblion yn effeithiol, a bod yr asesu'n gadarn dda. Mae'r adroddiad hefyd yn nodi bod staff yn ymateb yn dda i anghenion unigolion ac yn darparu gofal ac arweiniad effeithiol i'r plant a'i rhieni. Braf oedd clywed bod yr arolygwyr yn nodi bod disgyblion yr ysgol yn ofalgar iawn o'i gilydd, yn hynod foesgar ac yn hapus iawn yng nghymuned yr ysgol. Hoffai'r ysgol ddiolch i'r arolygwyr am eu proffesiynoldeb a'u gwaith trylwyr yn ystod yr arolygiad.

**Noson Cawl a Chân**

I ddathlu Dydd Gŵyl Ddewi trefnodd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon yr ysgol noson adloniant yn Neuadd Rhydypennau. Braf yn wir oedd gweld y neuadd yn llawn ar noson mor oer a rhewllyd. Yn ystod y noson perfformiwyd eitemau Eisteddfod yr Urdd gan blant yr ysgol o lefaru i gerdd dant. Diolch yn fawr i'r Gymdeithas am drefnu, i'r plant am berfformio mor wych, yr athrawon am yr hyfforddiant a diolch mawr i'r rhieni a ffrindiau'r ysgol fuodd mor barod i gefnogi'r digwyddiad ar noson mor aeafol.

**Diwrnod y Llyfr**

Cafodd nifer o blant yr ysgol gyfle i ddathlu 'Diwrnod y Llyfr' yng Nghanolfan y Celfyddydau ar yr 28ain o Chwefror. Trefnwyd y digwyddiad gan Gyngor Llyfrau Cymru a bu'r plant wrth eu boddau yn gwrando ar awduron enwog yn darllen ar goedd pytiau difyr o'u llyfrau. Cafodd y plant hefyd gyfle ar ddiwedd y sesiwn i siarad gyda'r awduron am eu llyfrau a sut i fynd ati i ysgrifennu stori dda.

**Coginio**

Roedd arogl hyfryd yn yr uned feithrin yn ddiweddar, gan fod y plant yn brysur iawn yn coginio pice bach er mwyn dathlu Dydd Gŵyl Ddewi. Blasus iawn!

**Hysbyseb**

Mae Llywodraethwyr Ysgol Rhydypennau yn awyddus i benodi Goruchwylydd Amser Cinio a fydd yn gyfrifol am oruchwylio disgyblion rhwng yr oriau 12:00 a 13:00 dydd Llun i ddydd Gwener adeg tymor yn unig.
Os am ragor o wybodaeth, mae croeso i chi gysylltu â'r Pennaeth, Mr Peter Leggett ar 01970 828608

**Clwb Cant**

Dyma'r canlyniad:
1af -£25-Gwilym Jones. Aberystwyth
2il-£15- Ian Pugh. Tregerddan
3ydd-£10-Susan Herron. Bryncastell

**Canlyniadau'r Steddfod Gylch**

Bl 2 ac Iau-canu Unawd 2il: Lili Myrddin; 3ydd Mirain Evans
Bl 2 ac iau Cerdd Dant 2il: Lili Myrddin; 3ydd Elan Gwilim
Parti Unsain-1af; Parti Cerdd Dant-1af
Parti Llefaru-2il



Coginio yn yr uned feithrin





Rhai o blant yr Ysgol gyda'r awduron



Noson Gŵyl Ddewi - Y Parti Cerdd Dant



Noson Gŵyl Ddewi - Parti llefaru



Perfformwyr Noson Gŵyl Ddewi



Noson Gŵyl Ddewi - Y Band

# Ysgol Penrhyn-coch





**Diwrnod diogelwch ar y we – 6/2/18**
Dathlwyd y diwrnod gyda amryw o weithgareddau. Y mae blwyddyn 5 a 6 wedi gwneud addewid i ddangos parch wrth ddefnyddio'r we ac wrth ddefnyddwyr eraill wrth fod ar y we. Da iawn i'r Dewiniaid Digidol Ffion, Mari a Gwion am drafod y testun ar raglen 'Taro'r Post' Radio Cymru.

**Cogurdd 8/2/18**
Da iawn i Annie-May am gystadlu yn Cogurdd yn Ysgol Bro Teifi.

**Diwrnod Cerddoriaeth Cymru – 9/2/18**
Diwrnod o wrando ar gerddoriaeth Gymraeg – gwych!

**Ymweliad Ricardo Evans o'r Wladfa 12/2/18**
Cawsom ymwelydd arbennig i'r dosbarth ar ddydd Llun y 12fed o Chwefror - sef Ricardo Evans o'r Wladfa. Gwnaeth gyflwyniad diddorol am ei fywyd a'r Wladfa a chafwyd sesiwn holi ac ateb ar ôl hynny. Llongyfarchiadau iddo am ennill ysgoloriaeth i fynychu Coleg Llanymddyfri a phob lwc iddo i'r dyfodol. Croeso cynnes iddo alw nôl i'r ysgol unrhyw amser.

**Ysgolion Creadigol Arweiniol 28/2/18**
Diwrnod lawnsio'r peli oedd dydd Mercher yr 28ain o Chwefror. Am gyffro! Er mwyn clywed yr hanes i gyd y mae croeso cynnes i bawb i'n noson arbennig yn sôn am y prosiect a chlywed hanes gwaith a thaith ddysgu'r disgyblion a'r peli. Ymunwch â ni ar nos Iau y 15fed o Fawrth o 5:30y.h. tan 6:30 y.h.

**Dydd Miwsig Cymru**
Roedd yna fwrlwm di-ri ar Chwefror y 9fed gan ei bod hi'n ddiwrnod o ddathlu miwsig ac artistiaid o Gymru. Cafodd y disgyblion dipyn o syndod wrth wylio fideos o artistiaid enwog yn danfon cyfarchion iddyn nhw i gyd! Cafwyd neges gan Rachel o fand Eden, Elin Fflur, Ows Gwynedd a neb llai na'r 'Welsh Whisperer' ac i goroni'r cwbwl danfonodd Ifan Jones Evans her iddyn nhw i greu hysbyseb i'w rhoi ar beiriant ateb Radio Cymru. Efallai i chi glwed Sian a Gwen o Fl 3 a 4 yn darllen y neges ar beiriant ateb Radio Cymru wrth iddyn nhw hysbysu ein Heisteddfod Ysgol - campus! Diwrnod i'w gofio! Ymhlith y gweithgraeddau dysgwyd y Sianti-fôr 'Fflat Huw Puw'. A bu cystadleuaeth trafod eu hoff gân Gymraeg a enillwyd gan Annie-May – llongyfarchiadau.

**Hanes taith iaith mewn cymeriad**
Os nad ydych wedi gweld unrhyw sioe mewn cymeriad o'r blaen mae'n werth i chi wylio allan am berfformiadau yn y dyfodol. Llion Williams oedd y cymeriad oedd yn teithio trwy archif yr Iaith Gymraeg! Roedd yn sioe ddoniol, llawn ffeithiau, hiwmor, cymeriadau hanesyddol ac yn fwy na hynny cymerodd y plant rhan flaenllaw yn y perfformiad! Miss Lawrence oedd seren y sioe yn dawnsio cân Gwersyll yr Urdd!

**Pythefnos Masnach deg**
Rydyn eisioes wedi cychwyn ar hyrwyddo deunydd masnach deg trwy gynnal siop i'r rhieni a'r disgyblion bob bore yng nghyntedd yr ysgol. Disgyblion y cyngor gwyrdd sydd yn gyfrifol am y siop ac maent wrth eu boddau! Y bwriad fydd i brynu rhywbeth (gyda'r elw) i deulu mewn gwlad arall sydd angen ein cymorth.

**Eisteddfod ysgol**
Braf oedd cael ymuno â Ysgol Pen-llwyn wrth i ni gynnal Eisteddfod ar y cyd yn Neuadd Y Penrhyn. Rhian Phillips oedd yn beirniadu'r cerdd a Lowri Jones o



Lanon oedd beirniad y llefaru. Cawsom brynhawn hyfryd o gystadlu gyda chwmni Cylchoedd Meithrin Pen-llwyn a Threfeurig hefyd roedd yna dipyn o fwrlwm! Llongyfarchiadau mawr i Megan Evans o Ysgol Penrhyn-coch ac i Evan Jones o Ben-llwyn a enillodd cystadleuaeth y gadair. Ysgrifennodd y ddau storïau campus. Paratowyd paned a chacen gan rai o rieni y Gymdeithas Rhieni a hoffwn ddiolch i bwyllgor y Neuadd am baratoi y Neuadd i ni.




## Ysgol Craig yr Wylfa

**CogUrdd**
Cynhaliwyd cystadleuaeth CogUrdd yn yr ysgol ble roedd y plant yn gorfod paratoi salad gan ddefnyddio amrywiaeth o gynhwysion. Roedd pob un ohonynt yn edrych yn flasus iawn. Llongyfarchiadau i Glyn a ddaeth yn fuddugol yn y gystadleuaeth, gyda Daisy yn dod yn ail, a Noah yn drydydd. Da iawn Mark, Finn a Dylan am gystadlu hefyd.

Llongyfarchiadau mawr i Glyn Clift a wnaeth gynrychioli'r ysgol yn yr ail rownd o'r gystadleuaeth. Fe goginiodd dau bryd mewn 90 munud. Da iawn ti Glyn!

**CA2 yng Nghastell Harlech**
Aeth blynyddoedd 4, 5 a 6 ar drip i Gastell a thraeth Harlech yn rhan o brosiect ysgolion creadigol yng nghwmni yr artistiad Llŷr ac Elin. Dysgon nhw am hanes y castell a'i gysylltiad gyda stori Branwen. Hefyd ar y traeth buont yn creu fersiwn eu hunain o'r stori. Mwynheuwyd y daith a'r gweithgareddau yno.

**Parti Pwdin! Iym!**
Yn ystod y prynhawn, ar ddiwrnod olaf cyn yr hanner tymor, cynhaliwyd "Parti Pwdin" yn yr ysgol. Roedd y staff wedi paratoi amryw o bwdinau blasus ac roedd croeso i rieni a'u plant brynu powlen a helpu eu hun i'r pwdinau. Codwyd swm arbennig o dda o arian tuag at yr Ysgol.

**Diwrnod y Llyfr**
Gwisgodd llawer o blant i fyny fel eu hoff gymeriad allan o lyfr. Roeddent yn edrych yn lliwgar tu hwnt! Yn y bore, aeth blynyddoedd 4, 5 a 6 i'r Neuadd Fawr yn Aberystwyth i wrando ar wahanol awduron yn dweud eu hanes a darllen rhannau o'u llyfrau. Roedd pawb wedi mwynhau'r cyfle i'w cyfarfod nhw!

**Pasg**
Dymunwn Basg Hapus i bawb!










GWASANAETH
TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
PROSESYDD GEIRIAU
PRINTYDD LLIW
IONA BAILEY
PEN-Y-BRYN
SWYDDFFYNNON
YSTRAD MEURIG
01974 831580

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â
TEGWYN LEWIS
01970 880627

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETH IECHYD A DIOGELWCH
Arolygon Diogelwch
Asesiadau Peryglon
Archwiliadau Damweiniau
Hyfforddiant
01970 820124
07709 505741


# Tasg y Tincer

Diolch yn fawr i'r pedwar fu wrthi'n lliwio'r cylch yn dangos yr holl anifeiliaid sydd gan y Chineaid yn eu calendr: Cennydd Davies, Llanilar; Rhys Mills, Penrhyn-coch; Anest Erwan, Bow Street (a diolch, Anest, am nodi bod Mam a Dad yn geiliogod, Elis yn ddafad, a tithau'n ddraig. Grrrr!); Dylan Herron, Bow Street. Ardderchog! Dy lun di, **Rhys**, ddaeth o'r het y tro hwn. Da iawn ti, a da iawn bawb arall hefyd.

Wel, rhaid sôn am yr eira mawr, on'd oes?! Daeth hwnnw mor sydyn ar ddydd Gŵyl Dewi! Dwi'n siŵr fod pob un ohonoch chi wedi bod allan yn mwynhau adeiladu dynion eira – er mai tylluanod eira gawson ni yn ein gardd ni!

A sôn am Ŵyl Ddewi, mae 'na ddathliadau pwysig eraill yr adeg hon o'r flwyddyn. Gobeithio eich bod wedi cofio rhoi paned yn ei gwely i Mam ar Sul y Mamau; mae'n Ŵyl Sant Padrig ar 17 Mawrth, ac yna mae 'na ŵyl bwysig arall ddiwedd Mawrth, sef y Pasg. Ydech chi'n bwriadu cael wy siocled? Mae'r wy yn arwydd o fywyd newydd wrth i ni gofio bod Iesu Grist wedi marw ar y groes, ac wedi dod yn fyw eto – dyna yw neges y Pasg. Mae hen, hen stori'n dweud os gwnewch chi gadw wy sy'n cael ei ddodwy ar ddydd Gwener y Groglith am fil o flynyddoedd (ych-a-fi!!), bydd y melynwy'n troi'n ddiamwnt! Mewn sawl gwlad, mae pobl yn dathlu'r Pasg drwy baentio ac addurno wyau. Beth am roi cynnig arni?

Anfonwch eich lluniau o'r wyau Pasg lliwgar at y cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 3 Brynmeillion, Bow Street, Ceredigion SY24 5BP erbyn Ebrill 1af. Ta ta tan toc, a mwynhewch eich gwyliau Pasg, pan ddôn nhw!





Rhys

CYMRAEG

Ariennir yn Rhannol gan Lywodraeth Cymru

Enw

Cyfeiriad

Ysgol

Rhif ffôn | Oed

SIOP Y PETHE

Llyfrau, Cardiau Cyfarch a Cherddoriaeth a llond llawr o Grefftau ac Anrhegion

01970 617120

Nawr yn cynnig gwasanaeth Clicied a Casglwch ar ein gwefan

www.siopypethe.cymru



JONATHAN LEWIS

Saer Coed / Adeiladydd

01970 880 652

07773 442 260

BRONLLYS, CAPEL BANGOR ABERYSTWYTH

ISSN 0963-925X

9 770963 925009 >

*Rhif 407 | MAWRTH 2018*